YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 8.] AWST, 1919. [PRIS 2g.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
NODION Y MIS.
DYN FEL RHEOLWR.
Y GYMANFA GERDDOROL.
ADGOF AM RAI CYMERIADAU, &c.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. AWST, 1919. [CYF. XIX. RHIF 8.

AR ADEN FFYDD.

CYNULLIAD Y CYSGODAU.

Emyn Hwyrol.

CYMYLAU'R nos o'n cylch sy'n tawel nesu,
A thrwst gofalon dydd sy'n ffoi o'n clyw;
Meddyliau pêr fel clychau pell yn canu
Sy'n distaw ddadgan—Amser Gweddi yw.

Cydgan: O Ior ein bywyd! dan dy nawdd yr hunom,
Dy Gariad fo'n ein gwylied ni bob pryd;
Di, nerth y gweiniaid! dan dy ofal byddom
Nes gwawria'r bore'n ddysglaer dros ein byd!

Hoff oriau hedd! tra ser uwchben yn t'wynu—
Hoff siriol ser sy'n gwylied drosom draw;
Tra uwch ein bywyd blin, yn gyson wenu,
Awgrymant am Ragluniaeth fyth ger llaw.
O Ior ein bywyd, &c.

Nid oes un drwg ddychryna'r fron hydero
Yn Nuw a'i fwyn Ragluniaeth gun;
Bydd gwawl anniflan yno'n byth fendithio
Fo'n gryf ei gred fel eiddo Crist ei hun.
O Ior ein bywyd, &c.

Aed heibio'r dyddiau! casgled y cysgodau!
Fe ddwg pob nos ni'n nes, yn nes i dref;
Am hyn gorphwyswn nes denfyn y Tad gorau
Ei genad i ddweyd wrthym—Dewch i'r nef!
O Ior ein bywyd, &c.

A. N. BLATCHFORD.

NODION Y MIS.

Beibl i Bawb o Bobl y Byd.

YN ystod y rhyfel lledaenodd y Gymdeithas Feiblaidd Brydeinig a Thramor naw miliwn o gyfrolau o'r Beibl, neu rannau o'r Beibl, mewn amrywiol ieithoedd, yn cynnwys pymtheg ar hugain o ieithoedd newyddion. Byddai'r nifer yn fwy onibae'r helynt yn Rwssia, ac i'r anwydwst ddwyn ymaith ddeuddeg miliwn o drigolion y ddaear. Credwn nad yw'r Gymdeithas eto wedi mabwysiadu'r Cyfieithiad Diwygiedig. Dywedodd Martin Luther y dylid penderfynu gwerth llyfrau'r Testament Newydd wrth y pwysigrwydd a roddir ynddynt i fywyd ac addysg Iesu Grist. Yn hyn cydunwn yn hollol ag ef. Amheuwn a fedr brodorion syml gwledydd anwareiddiedig ddeall Epistolau Paul a llyfr y Dadguddiad, nad beth am y cenhadon ddanfonir allan i'w dysgu. Nid gwaith hawdd yw deall ac esbonio'r Testament Newydd, ond y mae rhannau o'r Hen Destament yn anhawddach fyth i'w dehongli. Y mae'r Efengylau nid yn unig yn rhagorach eu cynnwys ond hefyd yn hawddach i'w deall na'r gweddill o'r Beibl.

* * *

Eglwysi Ffrainc a Fflandrys.

Dinystriwyd llawer iawn o eglwysi o fewn cylch y rhyfel—rhai o honynt yn emau godidog o safbwynt celfyddyd. Erbyn hyn sonir am godi eglwysi eraill ar falurion y rhai gynt, ac y mae'r Americaniaid yn barod i roddi help sylweddol gyda'r gwaith sydd yn golygu llawer o lafur a chost. O'r braidd y credaf y bydd yr eglwysi a godir mewn brys cyn odidoced a'r rhai a ddinystriwyd, a byddant yn brin o awyrgylch hynafiaeth sydd a chryn ddylanwad ar natur grefyddol dyn. Pan ymwelaf ag Eglwys hynafol iawn, mi welaf ac a glywaf, mewn dychymyg, genedlaethau lawer yn addoli a gweddio Duw yno, a theimlaf duedd gref i wneud yr un peth, a'r cwmwl tystion mor fawr ac mor fyw. Y mae nerth a gwerth mewn traddodiad hir a didor; cysylltiadau a'r gorffennol agos a phell yw'r pethau cysegredicaf a berthyn i gapel neu eglwys. Gobeithiaf yr edrych y Ffrancod a'r Belgiaid ar yr eglwysi newyddion fel arwyddluniau allanol o ailenedigaeth ysbrydol.

* * *

Tonau ac Emynau Cynulleidfaol.

Y dydd o'r blaen, o gadair Undeb yr Annibynwyr, dywedodd Syr J. D. McClure rai pethau hallt ar y testun hwn: "Amheuaf," meddai,

"A oes unrhyw wlad yn gyfoethocach mewn cerddoriaeth eglwysig na'r wlad hon; er hynny, ofnaf mai ychydig ŵyr am y cyfoeth hwn." Cwynai fod gormod o donau Americanaidd, o hiliogaeth "Sankey" mewn arferiad, ac yn gwthio allan o'r addoliad donau mwy clasurol. Dywedodd ymhellach nad yw llawer o'r emynau a genir ond rhigymau truenus, anheilwng o'r amcan y cyfansoddwyd hwy erddo.

Teimlaf finnau mai eiddilwch ac ysgafnder yw prif nodweddion llawer o'r tonau a genir yn ein plith ni. Y mae eisiau ysgubell fawr neu wyntyll gref i lwyr lanhau ein heglwysi o'r ffieidd-dra anghyfaneddol.

Y Dôn Job.—Yn y "*Frasers Magazine*" am fis Medi, 1860, edrydd un ysgrifennydd hanesyn digrif am yr hen dôn Job, o boenus goffadwriaeth. Mewn Ysgol Sul un prydnawn terfynwyd drwy ganu emyn a'i ddwy linell olaf fel hyn—

"That I may break Thy laws no more
And love Thee better than before."

I fodloni gofynnion yr hen dôn, rhaid torri'r llinell olaf yn ei hanner ac ail-adrodd y rhan flaenaf o honi fel hyn—*And love Thee bet—and love Thee better than before.* Yr oedd geneth o'r enw Bet yn yr Ysgol Sul y prydnawn hwnnw, a bachgen o'r enw John yn gwneud llygad direidus arni wrth ganu, gyda holl nerth ei ysgyfaint: "*And love thee Bet.*" Nid yw hyn ond un engraifft o'r dylni a'r diffyg chwaeth sydd yn gyfrifol am wneud cabledd o lawer emyn. Gresyn fu ychwanegu at ddolur yr hen batriarch Job drwy roddi tôn mor druenus ar ei enw.

Clywais hefyd am y *Salvation Army* yn canu fel hyn: "*Come down Sal—Come down Sal—Come down Salvation from above.*" Da gennyf ddeall fod y teimlad yn cryfhau yn erbyn emynau ystrydebol a thonau afler yn yr eglwysi. Gwnaf y sylwadau hyn oherwydd fod argraffiad newydd o'r "Perlau Moliant" mewn bwriad. Gobeithiaf y gwna'r sawl fydd yn gyfrifol am dano ofalu ei gadw'n lân o bob gwrthuni.

* * *

Y Gymanfa Gerddorol.

Rhaid dweyd gair am y Gymanfa. Cafwyd diwrnod teg, braf rhwng dau ddiwrnod garw, ac yr oedd pob heol yn arwain i Lanbedr y bore hwnnw yn fy atgofio am ddydd Mercher Mawr yn yr amser blodeuog gynt, ond fod y dorf yn fwy gweddaidd. Yn y bore yr oedd digon o le yn y capel i ychwaneg o wrandawyr a chantorion. Er hynny, dywedaf yn ddibetrus mai yn y bore y cafwyd y canu gore—yr oedd lleisiau'r plant yn beraidd ac yn swynol iawn, a'r donyddiaeth yn bur. Addefaf i ganu'r bore gyffwrdd yn ddwfn a'm teimladau fwy nag unwaith. Fe gollodd y rhai fu yn chwilbawa ar hyd yr heolydd y rhan oreu o'r gymanfa. Da oedd gan bawb weld

yr hen batriarch John Davies yn edrych mor heini, a'i glywed yn dechre'r oedfa yn ei ddull meistrolgar, fel gynt. Tarawodd y llywydd, y Parch. E. O. Jenkins, yr hoel ar ei chlop pan ddywedodd y byddai ef wedi colli adnabyddiaeth ar lawer o Undodiaid Ceredigion onibae am ambell Gymanfa Gerddorol a Chwrdd Cwarter. Ymddengys oddiwrth hyn nad yw Mr. Jenkins yn arfer mynychu ffeiriau a marchnadoedd y Sir.

* * *

Yn y prydnawn yr oedd y capel yn orlawn, a'r canu yn dda iawn. Yr oedd y *Bass* yn drwm a chyfoethog, y *Tenors* a'r *Altos* ychydig yn ysgafn. Yr oedd rhai o'r *Sopranos* yn rhagorol, eraill yn rhoi gormod o dreth ar eu lleisiau ar y nodau uchel, ac felly, ar droion, ryw ychydig allan o diwn a'r offeryn. Nid oedd purdeb y donyddiaeth mor berffaith ag yn y bore. Eto cafwyd hwyl dda ar y rhan fwyaf o'r tonau. Atgofiodd Proffeswr Green ni o eiriau y Dr. Johnson, "Miwsig yw'r lleiaf aflafar o bob swn." Credaf fod y rhan fwyaf o honom yn barod i fynd ymhellach na hyn a dweyd mai miwsig yw'r mwyaf swynol a nefolaidd o bob swn. Dywedodd y llywydd, y Parch. J. Islan Jones, air ar y dymunoldeb o ddethol tonau urddasol a mawreddog, a hefyd ar ein dyledswydd i beidio esgeuluso arddull arbennig canu Cymru—tonau yn y cywair lleiaf. Teimlai rhai o honom na wnaed perffaith gyfiawnder a rhai o'r tonau cynulleidfaol goreu yn y prydnawn a'r hwyr, am nad oedd y cantorion wedi eu dysgu yn drwyadl. Gresyn na fyddai ychwaneg o blant y gymanfa wedi llafurio am dystysgrifau mewn gwybodaeth gerddorol. Arweinyddion, cymerwch yr awgrym.

* * *

Cafwyd cyfarfod da yn yr hwyr hefyd o dan lywyddiaeth Mr. T. Richards, ac nid bychan yw ein dyled i bobl dda capel Soar am eu caredigrwydd parod. Traddododd Mr. J. M. Howell, Y.H., araeth ddiddorol, a dywedodd fod yr Undodiaid wedi arwain y ffordd mewn diwynyddiaeth i'r enwadau eraill, a hwythau yn canlyn o hirbell. "Pe byddai eich dull o argyhoeddi yn llai llym, byddech wedi llwyddo i raddau helaethach," meddai. Dywedir wrthym ddarfod i Mr. Howell ddod i'r cyfarfod yn arbenig er gwahodd y gymanfa i Aberaeron y flwyddyn nesaf, ond yn ei frwdfrydedd anghofiodd ei genadwri. Os gwir hyn, diau y cyflenwir y diffyg. Yr oedd Mr. J. Barrow wedi clywed fod y Cymry yn canu cyn tyfu o honynt wallt a dannedd, ac yn parhau i ganu ar ol colli'r addurniadau hynny. Gan nad beth am blant swydd Lancaster, gwir iawn fod plant Ceredigion yn ei lleisio hi yn lled beraidd cyn pen awr ar ol dod i'r byd, a chwareu teg iddynt, y mae'r rhan fwyaf o honynt yn parhau i ganu, neu o leiaf i'w "dweyd hi'n uchel" ys dywedai Dai Llandudoch, gynt, hyd henaint.

Y mae gair yn ddyledus am y ddau ddatganiad ardderchog a gafwyd yn ystod y gymanfa gan Mr. J. J. Jones, Frongelyn, Cribyn. Y mae ganddo lais cyfoethog, a medr ei ddefnyddio yn effeithiol. Nid yn aml y clywsom rwyddach brawddegu yn y ddwy gân, "*Honour and Arms*" a "*Arm, Arm, ye Brave*" sydd yn trethu cymaint ar anadl canwr.

Yn olaf, y mae gair o ganmoliaeth yn ddyledus i'r arweinydd, y Parch. T. A. Thomas. Yr oedd ei arddull yn gartrefol a hwylus iawn fel pe byddai yn hollol gyfarwydd a'r gwaith, a chredaf, pe byddai pawb wedi ymroddi gymaint ag ef, y byddai'r canu bron yn berffaith. Os gwnaeth arweinyddion lleol eraill eu gwaith gystal a Mr. Thomas, peth hollol afreidiol yw i'r pwyllgor i fynd allan o'r Sir am arweinydd. Ni fyddai hynny ond "ymofyn dwr dros afon."

Cafwyd cymanfa dda, ond gellir gwell pan gofia'r cantorion mai y gaeaf a'r gwanwyn yw'r amser priodol i ddysgu'r tonau, nid ar fore'r gymanfa.

* * *

Yn nyddiau'r Gymanfa daeth i'm cof rai ystoriau a glywais am ganu a chantorion. Rai blynyddau yn ol dywedodd Mr. Lloyd George yn yr Eisteddfod ddarfod i'r diweddar J. Spencer Curwen ddweyd unwaith wrth gyfaill o Gymro ei fod ef yn hoff iawn o donau Cymraeg, ac yn neillduol felly o donau un cyfansoddwr o'r enw Alo Jimrig (Alaw Gymraeg). "Ie," meddai Mr. Lloyd George, "dyna'r cyfansoddwr goreu welodd Cymru erioed; y mae awelon y bryniau, gwlith ysbrydol, a phrofiad enaid yn ei ganeuon."

Cyn i mi wybod y drefn, gofynnwn i mi fy hun "faint o donau ehedganol y rhaglen genir yn y gymanfa eleni, tybed?" Cofiais am yr hen wr hwnnw syrthiodd mewn cariad a'r dôn "Sandon" pan y daeth allan gyntaf. Nid oedd un emyn yn ei lyfr ar y mesur, ond ceisiodd ddarbwyllo arweinydd y gân i'w chanu, ar emyn mesur degau, pedair llinell, gan ail ganu y rhan gyntaf o'r llinell gyntaf (a'r ail) fel hyn:

"Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
Gwna fi fel pren."

Y diweddar D. Jenkins, Mus. Bac., a draethodd yr ystori hon yn y "*Cerddor*" rai blynyddau yn ol.

* * *

Heddwch.

Bellach, y mae amodau heddwch rhwng yr Almaen a'r gwledydd Cyngrheiriol wedi eu harwyddo. Y mae'r telerau yn galed i'r Almaen, a cheir llawer yn y wlad hon yn condemnio'r cytundeb fel un treisiol.

Peth afresymol oedd disgwyl i Ffrainc a Belgium i anwylo a chusanu'r Almaen yn union deg ar ol iddi wneyd ei heithaf creulon ar faes y frwydr. I'm barn wylaidd i nid yw penyd yr Almaen yn fwy llym na gofynion cyfiawnder, a da fydd i bob cenedl yn y dyfodol gofio beth yw'r gosp am ymosodiad diachos ar genedl arall. Terfysglyd o hyd yw pethau yn Rwssia, ac nid yw Hungary lawer gwell. Y mae'n dra thebyg yr arwyddir heddwch yn fuan eto rhyngom ni ag Austria a Thwrci; yna bydd gorllewin Iwrop unwaith eto yn llawn o waith a masnach. Yn hwyr neu yn hwyrach, caiff Rwssia gas ar ei Rhyfel Cartrefol, ac yna daw'r byd i'w le. Rhaid i ninnau geisio dysgu byw bywyd caled gyda wyneb siriol.

I. J.

DYN FEL RHEOLWR.

[Gan PLAS GWYN]

Ffyna dau olygiad amlwg yn y byd heddyw, sef mai Duw sydd yn rheoli y byd, ac mai dyn. Daliwn ni at yr olaf, am ei fod yn fwy cyson a hanes y byd o'i ddechreu hyd yn awr. Os y credwn mai Duw yw rheolwr amgylchiadau y byd, nis gallwn osgoi y penderfyniad mai rheolwr gwael yw; a gan y gwelir rheolaeth y byd mor wael ac anniben, rhaid i ni ei phriodoli i ddyn anmherffaith ac anufudd i i ddeddf Duw.

Nid oes synwyr yn yr ymadrodd, "Gwneler dy ewyllys ar y ddaear, megys ag y mae yn y nefoedd," os mai ewyllys Duw yw fod pethau ar y ddaear fel y maent. Y mae annibendod ac afreolaeth amgylchiadau ein byd i'w briodoli i'r offeredd y cyfeiria yr Apostol ato; ac nid doeth fyddai gosod yr offeredd wrth ddrws y Creawdwr. Y mae dweyd mai dyn sydd yn rheoli amgylchiadau ein byd yn foddlonrwydd; y mae dweyd mai Duw yw yn dramgwydd ac yn ddyryswch.

A'r ddau olygiad uchod ymgysyllta dau arall a hwy, a chwareusant ran fawr yn y rhyfel diweddar, sef os mai Duw sydd yn rheoli, y mae y passifist yn iawn, yr hwn a gred mai dyledswydd a gwaith Duw yw gofalu am y byd a'i ddiogelu a'i waredu, ac nad oes eisieu byddinoedd nac arfau tan, eithr ond i ni beidio gwneyd dim, y gwna Duw yr oll. Dyna yw golygiad ymddangosiadol y gwladyddwr duwinyddol, y passifist, y cydwybodwr, a phob gwirion goelia mai Duw yw yr oll a dyn yn ddim.

Yn wrthgyferbyniol i yna, cred y llall yw, os nad yw Duw yn ymyryd ag amgylchiadau (a dyna y casgliad o edrych dros ac ystyried hanes y byd) mai dyledswydd a gorchwyl dyn yw trefnu ei amgylchiadau, symud ymaith ei afreolaeth a'i annibendod, ac fod ganddo y gallu a'r awdurdod oddiuchod pan y sylweddola ei safle a'i ddyledswydd fel goruwchwyliwr y Creawdwr ar y ddaear. Dylem bob amser seilio ein golygiadau, nid ar ddychymyg neu ddymunoldeb, eithr ar y ffaith fawr ganfyddwn o'n hamgylch; ac os y cymer ein dysgyblion y drafferth i efrydu hanes o Adda i waered hyd heddyw, fe'u tarewir gan y ffaith amlwg, gyhoeddus

nad yw ymyriadau Duw ond dygwyddiadau eithriadol o eithriadol, ac fod y duedd i wadu yr eithriadau hyny yn ymgryfhau yn ein hoes feddylgar a sylwgar ni.

Ond a chaniatau fod yr ymyriadau a gofnodir yn y Beibl yn wir, ni roddant i ni fawr o gysur y cymerant le yn ein dyddiau ni, ac yn y gyflafan ddinystriol ddiweddar, pan yr oedd mwy o ddysgwyl am waredigaeth wyrthiol nag a fu erioed. Y mae o'r pwys mwyaf i genedloedd gwar a rhyddion y byd gael sicrwydd y gwaredir hwy a'r gweddill o'r byd o afaelion haiarn a gwaed milwriaeth Germani gan Dduw. Pe y dysgwyliasai y gwledydd wrth Dduw bum mlynedd yn ol, buasent heddyw dan draed y gallu mwyaf dieg wyddor a didostur a welodd y byd erioed.

Buasai y golygiad Duw-amddiffynol wedi damnio y byd a'i wareiddiad. Yn ffodus iawn, daliai Prydain, Ffrainc, Rwsia, a'r Eidal yn ddiweddarach, ac America yn ddiweddarach eto, mai y golygiad arall sydd yn iawn, sef fod Duw yn cynorthwyo y rhai sydd yn cynorthwyo eu hunain; ei fod yn bendithio y rhai sydd yn amddiffyn eu hunain, ac nad yw yn rhoddi cynydd i'r rhai nad ydynt yn planu ac yn dyfrhau. Nid yw yn sylwi ar neb sydd yn disgwyl wrtho i blanu, dyfrhau a rhoi y cynydd. Y mae perygl enbydus mewn meddwl gormod o Dduw, a chredu ei fod yn bendithio diofalwch ac anystyriaeth. Ni wna y mymryn lleiaf o wahaniaeth fod y sawl gred hynny yn dduwiol a chydwybodol. Nid yw y sawl gred yn gydwybodol y gall fyw heb fwyta yn ddim gwell na'r sawl na chred hynny rywfodd.

Ymddengys yn rhyfedd na welsid hyn yn fwy yn yr amser fu; na feddyliesid yn fwy o allu dyn ac o'i safle a'i wasanaeth yng nghreadigaeth Duw, yn hytrach na'i ddiraddio a'i ddidymu fel yr ymgeisiodd Calfiniaeth, a phob duwinyddiaeth o ran hynny, wneyd. Amgyffrediaeth dra annheilwng oedd gan holl dduwinyddiaeth y cynoesau o ddyn fel cydweithiwr a goruchwyliwr Duw ar y ddaear. Yng ngolwg duwinyddiaeth, aeth dyn yn fethdalwr hollol yn y Cwymp, a byth ar ol hynny, hyd yn ddiweddar, nid oedd ei gredyd yn ddim; aethai yn hollol ddi-barch, yn grwydryn carpiog a diraddiedig, yn hobo digymeriad, er fod y Creawdwr wedi ei ddonio a'r galluoedd mwyaf disglaer, ac wedi ei gymwyso i lenwi y swydd uchaf ar y ddaear, pe yr ymgymerasai duwinyddiaeth a'i anrhydeddu yn lle ei warthruddo.

Y mae gennym un peth yn erbyn y duwinydd, sef y gwyddai yr oll am Dduw, pan na wyddai nemawr ddim am ddyn yn ei ymyl! Difyr mor wybodus oedd duwinydd y canoloesau o nefoedd ac uffern, pan na wyddai nemawr ddim am ddaearyddiaeth a thrigfannau ei wlad ei hun!

Rheswm arall a ellir roi yw mai gwybodaeth o Dduw (os gwybodaeth ymddiriedol o gwbl) yw duwinyddiaeth, a gwybodaeth dynol yw gwyddoniaeth, yr hon sydd yn cywiro cryn lawer ar dduwinyddiaeth y dyddiau hyn, gan ddweyd pethau llawer gwell am Dduw a'i greadigaeth, ac am ddyn a'i amryw iol ddyledswyddau. Wrth fyned am dro un diwrnod drwy lyfr dyddorol un o'r meddylwyr newydd yma, daethom ar ben y frawddeg awgrymiadol hon, ac ymddangosai i ni yn addysgu yr un gwirionedd mawr ag a geir yn ein sylwadau diweddar: "God does not make things but make those who do." Y mae hwn hefyd mor hen a llenyddiaeth Babilon filoedd o flynyddoedd cyn Cred. Cafodd rhywun y syniad hwn mewn hen gerfiad, sef mai y rheswm i Dduw greu dyn oedd am ei fod am Ei addoli, ac am na allai adeiladu teml, felly fe aeth ati i greu dyn, yr hwn allai! Gwelwn rhai o'n disgyblion yn gwenu yn wawdus at hyn yn anystyriol, ac eto y mae yn wir yn ein plith.

Clywid llawer o son y blynyddau diweddaf hyn am Eglwys Gadeiriol Rheims, ac eto am un gyffelyb Amiens ag y mae y Germaniaid

annuwiol wedi gwneyd ymdrech fawr i'w difetha. Gwaith dyn yw y ddwy, a dywedir eu bod yn gelfweithiau gwych a godidog, ac nad oes eu tebyg yng ngwlad y German. Yr oedd y byd hebddynt hyd nes i ddyn eu hadeiladu. Yn y ddinas lle mae y "Plas" hwn yn byw y mae llawer o eglwysi a chapelau, ac oni bai am ddyn ni fuasai yr un ohonynt yma, na thai anedd ychwaith—yr oedd y wlad yn anghyfanedd, er fod Duw yma er's oes oesoedd. Felly, gwir ddywedai y llenor, sef nad yw Duw "yn gwneud pethau, eithr yn gwneud rhai sydd yn gwneud." Yr oll a wna Duw i ni yw cyflenwi y defnyddiau i ni weithio arnynt, a'i gadael hi ar hynny.

Byddai dyn a'i gymhar yn noeth-lymyn oni bai am ddyfais y ddau erioed, a honno ar wellhad o oes i oes, hyd y mae yn hyfrydwch i'r darllenydd weled y ddau yn myned i'r eglwys neu'r capel ar y Sul. Mae yn ddyddorol sylwi ar y gwelliant yn y grefft o wneud dillad o'r awr yr agorwyd llygaid y ddau yn Eden hyd at waith ein hoes ni—o'r arffedogau ffigysddail y dydd hwnnw hyd wychion wisgoedd pobl y dyddiau hyn. Profa hyn ddadblygiad.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Diwrnod gwlyb rhyfeddol fu dydd Mawrth, y 17eg o Fehefin, ac ofnem oblegid hynny rhag i'r dydd dilynol —y 18fed—droi allan yr un fath. Bron yn ddi-eithriad, drwy'r blynyddau, fe'm bendithiwyd â diwrnodau braf i gynnal ein cymanfa. Dyna'r rheol. Ond y mae i bob rheol eithriad. Ac eithaf posibl ydyw—dyna fel yr ymresymem — mai eithriad fyddai dydd y Gymanfa eleni o ran yr hin. Torrodd boreu'r 18fed allan, fodd bynnag, gydag arwyddion ffafriol. Ac ni chawsom ein siomi: bendithiwyd ni ag un o'r diwrnodau brafaf. Ac yn gynnar yn y boreu, dechreuodd y bobl dyrru i dref brydferth Llanbedr o bob cyfeiriad, mewn pob math ar gerbydau, yn eu dillad goreu, newydd—yn enwedig felly y plant; nid yn aml y ceir golygfa mor swynol a'r un geid yng Nghapel Soar yng nghyfarfod y boreu — yn enwedig felly yr olygfa ar yr ochr o'r oriel a lenwid gan y plant; mor brydferth oeddynt o ran eu diwyg allanol, mor siriol eu hwynebau, mor swynol eu lleisiau. Gobeithiaf na fydd i rhai a lanwent yr ochr gyferbyniol o'r oriel gythryddo wrthyf oblegid dweyd o honof hyn. Erbyn amser dechreu, yr oedd yr oriel yn weddol lawn; a chyn i'r cyfarfod fyned ym mhell ym mlaen, yr oedd y cynbulliad yn lluosog. Cyfarfod i'r plant oedd hwn, a thonau'r plant a genid. Ni allaf ddweyd dim am ansawdd y canu, eithr yr oedd yn swynol i'r eithaf. Cynllun da iawn yw penodi plant o'r gwahanol ysgolion i adrodd yr emynnau. Yr oedd pob un o'r adroddiadau yn effeithiol iawn. Llywyddwyd ar gyfarfod y boreu gan y Parch. E. O. Jenkins, gan yr hwn y cawd anerchiad pwrpasol ac amserol; yr oedd tipyn bach o bypyr yn rhai o'i sylwadau—nid heb angen. Llywyddwyd ar gyfarfod y prydnawn gan y Parch. J. Islan Jones, M.A., Hindley. Y llywydd penodedig oedd Dr. Jenkins, Swyddog Iechyd dan Gynghor Dinesig y Rhondda, mab Trecefel; ond methodd cyflawni ei addewid, a bu'r pwyllgor yn ffodus iawn i gael

substitute mor rhagorol. Cafwyd ganddo yntau hefyd anerchiad rhagorol iawn. Ai ni ellid cael y ddau anerchiad ar dudalennau'r YMOFYNYDD? Llywydd penodedig y cyfarfod hwyrol oedd Mr. Jones, Eryl, Llanbedr; eithr fe'i lluddiwyd yntau i fod yn bresennol gan amgylchiadau (cynhelid y Gymanfa Dair Sirol yn Abergwaun yr un dydd). Llanwyd ei le gan Mr. T. Richards, Ardwyn, yr hwn, ar ran cynulleidfa Soar, a estynnodd i'r Gymanfa roesaw gwresog iawn. Yn y ddau gyfarfod canwyd y tonau penodedig—rhai o honynt ragor nag unwaith — gydag arddeliad, Diau y gallai'r beirniad manwl nodi llawer o ddiffygion yn y canu– rhai o honynt, o bosibl, yn ddychmygol; eithr credaf mai'r farn gyffredin oedd fod y canu drwy'r dydd o safon uchel iawn. Yr arweinydd eleni oedd y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul, ac aeth drwy ei waith yn ardderchog. Cadwodd y gynulleidfa fawr mewn llaw yn llwyddiannus iawn o'r dechreu hyd y diwedd. Y mae Mr. Thomas wedi llanw llawer o gylchoedd pwysig yn ystod ei fywyd gweinidogaethol—gweinidog, golygydd, ysgrifennydd y Gymdeithas, cynghorydd sirol, ac yn y blaen; yr oll o honynt gydag anrhydedd iddo ei hun. Rhaid ychwanegu un cylch arall – arweinydd cymanfa. Drwg gennym nad yw iechyd Mr. Thomas wedi bod yn foddhaol yn ddiweddar. Eiddunaf iddo adferiad llwyr a buan. Dyna ddymuniad cylch eang ei adnabyddiaeth hefyd. Dechreuwyd y gwahanol wasanaethau gan y Parchn. J. Davies, D. Evans, ac L. Williams. Yng nghyfarfod y prydnawn a'r hwyr canwyd unawd gan Mr. Jenkin John Jones, Frongelyn, yn effeithiol iawn. Y mae'r cyfaill ieuanc hwn eisoes wedi ennill iddo ei hun le uchel fel datganwr, a gellir yn hawdd broffwydo iddo ddyfodol disglaer. Uwch, uwchach yr êl. Cafwyd anerchiad yng nghyfarfod y prydnawn gan y Proffeswr Green, o Goleg Dewi Sant, ac yng nghyfarfod yr hwyr gan Mr. J. M. Howell, Y.H., Aberayron, a Mr. J. Barrow, o swydd Lancaster. Deffiniad y Proff. Green o gerddoriaeth oedd, "*the least disagreeable of noises.*" Dygodd Mr. Howell i sylw'r gynulleidfa fater hollol newydd. Ai ni ellid cael erthygl o law Mr. Howell ar yr un mater? Efallai, pe gwnawn ymgais i roi sylwedd ei anerchiad mewn byr eiriau, y gwnawn gam ag ef. Felly, gadawaf y mater rhwng y golygydd ag ef. Nid rhoi anerchiad, fel y deallaf, oedd diben pennaf ymweliad Mr. Howell, eithr estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor a'r Eglwysi i gynnal y Gymanfa y flwyddyn nesaf yn Aberayron. Ond pan yn agos i Penwern ar y ffordd adref y daeth y neges i'w gôf. Dyna, o leiaf, fel y'm hysbyswyd gan rywun a allai wybod. Tynnwyd fy sylw gan un peth arall yn ystod y cyfarfodydd—yn neilldiol yng nghyfarfod yr hwyr. "Cymanfa Ganu'r Undodiaid" — dyna fel y desgrifid y cyfarfodydd gan y mwyafrif yn ddiau; eithr mwy priodol, fel yr ymddengys i mi, fyddai ei galw yn "Gymanfa Ganu Undebol." Undodiaid, gan mwyaf, oedd y cerddorion ar y llofft—er nad Undodiaid yr oll o honynt hwy hefyd. Wrth daflu o honof fy ngolwg tua'r llawr, fodd bynnag, gwelwn gyfeillion o bob enwad — Annibynwyr, Bedyddwyr, Wesleyaid, Methodistiaid ac Eglwyswyr, yn canu â'u holl ynni. Sylwais ar hyn yn neilldiol pan y datgenid emyn Iolo—"Daw dydd caniadau'n gwaredigaeth," &c. Ni all ysbryd plaid a sect, fel y mae'n amlwg, fyw yn swn y gân. Cyfeiliwyd yn ystod y dydd gan y Proffeswr Richard Howells, Aberdar, ac yr oedd ei gyfeiliad meistrolgar yn amheuthyn i'r dorf. Y mae yn bosibl fy mod wedi gadael allan rai pethau y dylwn fod wedi eu henwi; os felly, nid yn fwriadol y digwyddodd hynny, ond oherwydd fod y digwyddiadau wedi dianc o'r côf. Ar derfyn y dydd ymadawodd pawb tua'u cartrefleoedd gyda'r profiad melys mai "da oedd bod yno."

C. D. E.

ADGOF AM RAI CYMERIADAU AR FLAEN CLETTWR FAWR DRIUGAIN MLYNEDD YN OL.

Gan Ioan Dafydd.

Ysgol Rad Mr. Hughes yn Pantygetris.

Ysgol Râd Madam Beavan oedd hon. Cedwid hi yn hen Ysgoldy (yn awr wedi diflannu yn hollol) ar dir Blaengloewon Fach, gan un o'r enw Mr. Richard Hughes. Gwr cloff oedd, neu yn hytrach, dyn ydoedd ag un glun yn hirach na'r llall. Pan y safai yn syth byddai ei ddwy glun ar ffurf y lythyren N, un yn syth, a'r llall yn gymalog gam. O ganlyniad, pan y cerddai, byddai ei ben, bob yn ail gam, yn ysboncio i fyny rhyw droedfedd. Gwr ydoedd genedigol o Dremain, ger Aberteifi. Pan yn Mhantygetris llettyai yn mhen uchaf "Tŷ Sion Dafi Watcyn," yn ymyl yr Ysgoldy, a gweinyddid arno gan rhyw berthynas, o'r enw Rhode. Ar adegau byddai hon yn diflannu yn ddisymwth, tebyg mai oherwydd rhyw anghydfod nas gwyddem ni. Beth bynag, hen wr bucheddol a duwiol oedd Mr. Hughes. Yn ol rheolau yr Ysgol Râd, arferai ei dechreu bob bore a'i gorphen yn yr hwyr, trwy weddi a chanu emyn. Byddai yr hen Gristion ar y cyfryw adegau yn dra gwlithog a maith yn ei weddiau. Dim ond geiriau un o'r emynau hyn ddont i'm cof yn awr, a genid gennym ni, gyda brwdfrydedd. Ni chlywais y fath emyn gynt na chwedy'n. Rhedai y geiriau fel hyn :

"Daw'r garreg oddidraw,
A dorwyd nid â llaw ;
B'le treigla hon
Bydd pob rhyw fron mewn braw."

Pan ddelom i'r gair "treigla," arferai yr hen bererin gnocio a'i droed hiraf ar ystyllen oddi tano, a gwaeddem ninau allan nerth ein cegau, "B'le treigla hon," nes gellid ein clywed yn rhwydd yn Mronfelen, rhyw chwarter milldir ymaith, tu draw i'r afon Gloewon. Yna ar ol canu hon yn ddawnus, a gweddi hirfaith gan yr hen bererin, byddem am tua haner awr, gyda'n gilydd yn myned dros rhyw ranau o Gatechism yr Eglwys, gan eu dweyd mewn dull undonog, fel yr arferir wrth "Adrodd Pwnc." Byddai yr oll o'r uchod yn yr iaith Gymraeg.

Troem yn nesaf i ddysgu darllen Saesneg, mewn gwahanol ddosbarthiadau, yn ol ein hoedran a'n dysg. Byddai y llyfrau yn amrywio : y llyfr bach A B C ac ab, eb, ib, &c., fyddai gan y rhai ieuengaf. Llyfr bythgofiadwy oedd hwn gan bawb o honom, wedi ei argraphu yn Nghaerfyrddin, a llun buwch ar un tudalen, a cheffyl ar un arall, a llong ar un arall, a'r hyn a ddarllenem pryd hyny o dani fel hyn : "*A little sheep on rorring say.*" Byddai y plant bach wedi treulio, neu rwygo, neu fwyta y tudalennau o'r llyfr A B C, fel na fyddai ganddynt ond un dalen o hono yn ol pan yn ei orphen, ac fynychaf, byddai yn rhaid iddynt gael sawl copi newydd o hono cyn ei orphen. Ond yn ffodus, ni fyddai ei bris ond un geiniog. Y llyfr i'r dosbarth nesaf a elwid gyda ni y plant yn "Ready mad-asy," hyny yw, "*Reading Made Easy.*" Edrychid ar hwn fel llyfr caled ac uwchraddol, a chostiai bedair ceiniog. Y llyfr a ddarllenid gan y dosbarth blaenaf oedd y Beibl Saesneg. Gorphenid gwaith y boreu trwy y gwersi hyn mewn darllen. Yna byddai dwy awr o orphwys oddiwrth waith meddyliol ar hanner dydd. Treuliem y ddwy awr hyn ar ol bwyta ein "tocynnau," mewn gwahanol chwareuon. Byddem yn yr haf yn ymddifyru mewn chwareu, *Stic a Chat*, tu draw i'r

afonig Gloewon, o dan gysgod yr hen goeden sycamorwydden, tu allan y Gerddi Bach. O fewn y gerddi hyn, tu draw i adfeilion yr hen dŷ yno, byddai y merched yn y cyfamser yn chwareu "dandis," neu, mewn llinell hir, yn chwareu "Barcuttan Llwyd Mawr" yn ymdrechu tori pen y ciw olaf.

Yn y gauaf ymgymerem a chwareu yn gofyn mwy o fywiogrwydd er cadw yn wresog. Byddai y bechgyn hynaf yn ymddifyrru a chicio y "bêl droed" yn mhen uchaf maes Blaenglowonfach, uwchben yr Ysgoldy. Ymfoddlonai y rhai ieuengach a "chwareu bando," yn y llain o'r un maes islaw i hyny. Pwy oedd y rhai goreu gyda'r bêl droed? Nis gallaf ateb hyn yn iawn, canys nid oeddwn yn gyfoed a'r cewri hyny, ond yn perthyn i ddosbarth îs, sef chwareuwyr a bando. Ond meddyliaf mae y rhai hyn oedd y rhai goreu, sef, John Llawrcwrt; John Blaenglowon Fach; William Galltmaen; Ifan, a John, a Dafydd Blaenglowon Fawr. O'r gwroniaid a'r bando y goreu a'r cyflymaf oedd Josi Blaenglowon Fach; a'r nesaf ato, efallai, oedd "Bratsh," sef, Daniel Rhenga. Hefyd yn mhlith y dô a'r bando yr oedd John Sarne Gwynion, sef, wedi hyny John Ffatri, Talgarreg; Tomos Ffynon Wen; John Pantgwyn; John a Tomos, Pant Bach; Twmi Pwllybladur; Jenkin a John Bach Perthronw. Ond gwrthwynebwr yr olaf yn fynych fyddai Twm Dew o'r Spite, yr hwn, os nas gallai ddianc oddiwrtho a'i taflai i lawr ac a orweddai arno a holl bwysi llwyth ei gnawd, nes byddai braidd yn llewygu. Byddai llawer o glwyfau yn cael eu rhoi a'u derbyn ar ein penau a'n crumogau, yn y chwareuon hyn fel y mae yn naturiol meddwl. Hefyd pan y byddai y tywydd yn oer iawn, caem tua un-ar-ddeg o'r gloch, yr hyn a elwid "Hêt Boys." Yna y byddem, fel gwallgofiaid, yn gweu trwy ein gilydd, a phawb braidd yn gwaeddi nerth ei ben. Rhai fyddent yno yn ffusto dwylaw a'u gilydd; eraill a'u dwylaw yn mhlyg yn rhuthro fel dau hwrdd yn erbyn eu gilydd, neu "Chwareu Hespin a Hwrdd," fel ei gelwid. Ond rhoddid terfyn ar y fedlam fawr trwy i'r meistr ddychwelyd, a gwaeddi allan wrth agor y drws, "*Places, Boys.*"

Hen wr oerllyd oedd Hughes, yr ysgolfeistr. Byddai, hyd yn oed yn yr haf, yn gwisgo am dano rhyw ddau bâr o ddillad. Ond yn y gauaf nis gallem wneyd allan faint o ddillad a wisgai. Edrychai yn anferth o faint ynddynt oll. Beth bynag, yr oedd yn cael ei barchu gan bawb, o bob enwad. Hir fe gofiwyd am dano gyda phob parch yn nghymydogaeth glanau uchaf Clettwr Fawr. Yr oedd ei lawysgrifen yn ardderchog, fel *copper-plate*, fel y dywedent. Pan y delem i mewn yn y prydnawn byddai copi ysgrifenu pawb yn barod, wedi ei "rulo," a'r ysgrifen i'w hefelychu wedi ei hysgrifenu ar ben y ddalen yn llawysgrif ardderchog yr hen bererin. Ond dysgai y rhai ieuengaf ysgrifenu ar lechau y copi fyddai wedi ei ysgrifenu a sialc ar y bwrdd du. Ond prif ogoniant yr ysgol oedd y gorchwyl o "seiphro," fel y galwem ef, neu "gounto." Byddai rhai o'r rhai blaenaf wedi myned dros y "*Reduction*," a'r "*Rule of Three*," a'r "*Practice*," a rhai wedi myned i ymyl y "*Vulgar Fraction*" yn y "*Tutor*." Yn mhlith y rhai hyn yr oedd Tomos Ffynon Wen; John a Dafi Blaenglowon Fawr. Ond gwron mawr pawb mewn "seiphro," un diwrnod, oedd Dafi Rhydyrhaiarn Fach. Yr oedd hwn ar y diwrnod hyny wedi llanw ei slât fawr, ar swm anferth dalwyd am y ceffyl, gan y dyn oedd wedi cytuno i dalu ffyrling am yr hoelen gyntaf yn ei bedolau, a'u dyblu am yr holl hoelion yn ei bedair pedol. Bu y slât hyn a'r swm arni, a'r lythyren "R" arni gan y meistr yn wrthddrych syndod neu genfigen, yn ol teimlad yr ysgolheigion am ddyddiau lawer yn nghrog wrth hoelen ar wal yr Ysgoldy. Ond "Ichabod!" diflannodd y gogoniant trwy i rhyw "grwtyn," drwg, cenfigenllyd, i "flotto" allan o'r slât yr oll o'r swm,

er mawr ofid a digder Dafi Rhydyrhaiarn Fach. Yr oedd yn dda i'r llencyn hyny nas cafwyd ef allan, neu tebyg y byddai yn cael ei gicio yn waeth nag y gwnaed a'r bêl droed, neu a'r bêl a'r bando.

Wel, dyna fy adgofion o rai o hen gymeriadau yn Ysgol Pantycetris, rhyw driugain mlynedd yn ol, ac hen arferion da gynhelid ynddi. Ond, Och! daw gwasgfa ar fy nghalon pan gofynaf, "Pa le y maent?" Duw a'i gŵyr, pa le y maent yn awr? Y mae y rhan fwyaf o honynt wedi cefnu o ran eu personau a'u hwynebau a'r byd hwn. Pa le y mae Lewis Rhydlydan, a John Rhydlydan, wedi hyny y Parch. John Thomas o Lanbedr? Pa le y mae Tomos Ffynon Wen, neu Thomas Thomas, Talgarreg? Pa le y mae Rhys y Felin, wedi hyny, y bardd enwog Rhys Etna Jones? Pa le y mae fy nghyfaill, Josi Blaenglowon Fach, a'i frodyr? Pa le y mae yr hen frawd, John Ffatri, a garai ymgomio a mi am yr hen amser gynt? Pa le y mae yntau yr hen bererin Mr. Hughes, yr ysgolfeistr? Gwelais ei fedd yn mynwent Tremain, a darllenais ei goffadwriaeth arni, nid heb ddagrau. Pryd hyny delai i'm meddwl eiriau Dafis Castell Hywel:

"Lle gorweddan yn y graian,
Ni ddychwelan yma mwy;
'Dall nac awel bêr y boreu,
Na gwaedd ceiliog uchel gân,
Na whit gwenol lân foreuol
Yn y llwfer uwch y tân;
Na chorn helwyr, bloedd medelwyr,
Clych, taranau, na daeargryn,
Byth ddihuno rhai mewn amdo
Sy' yma'n huno'n drwm eu hun."

MARWGOFION.

MEHEFIN 1, yn 38 mlwydd oed, John Ayres, Graig, Trebanos. Claddwyd wrth Gellionen y Mercher canlynol. Gweinyddwyd gan y Parch. D. G. Rees. Codwyd yr angladd a gweddiwyd yn yr addoldy gan y Parch. L. G. Lewis, (B.), Pontardawe. Difrifol yw meddwl gynifer o deuluoedd sydd wedi eu hamddifadu o'u ffyn bara y blynyddoedd diweddaf hyn, a difrifolach yw sylwi mor fach yw gofal y llywodraethau i gwrdd ag anghenrheidiau y cyfryw mewn dydd o gyni. Pan fydd dyn farw, naturiol holi sut y bydd y weddw a'r plant fyw. Mae gweddw a phedwar o blant ar ol yma, ac oni fedr dyn gynorthwyo fedr Duw ddim, am mai dyn ydyw unig gyfrwng gwaith Duw. Nid oedd dyfalach llafurwr yn y wlad na John; ac nid afradodd neb lawer llai nac efe. Bu wrthi hwyr a bore, bore a hwyr, ac wele, efe a ddiflannodd megys ôd ar ddyfroedd. Hyderwn y gall y rhai bach a'u mham trwy gyd-gymorth ereill, lwyddo i gadw angen y tu allan i'r trothwy.

MEHEFIN 23, yn 22 oed, David Tom Jones, Cottage Farm, Horeb, Llandyssul. Ymunodd ein cyfaill ieuanc a'r fyddin o'i wirfodd yn gynnar yn 1916, a gwelodd lawer o wasanaeth yn Ffrainc. Cymerodd ran yn rhai o'r brwydrau caletaf yno yn 1916-17-18. Yna wedi goiphen y rhyfel cafodd ddyfod gartref am ychydig seibiant. Ar y ffordd adref cafodd anwyd, yr hwn a drodd yn *pneumonia*, a gwaelodd yn raddol. Symudwyd ef i'r Clafdy Milwrol yn Ngaerdydd lle y bu farw. Dygwyd ei gorph adref i'w gladdu yn mynwent Capel y Cwm y dydd Gwener dilynol i'w farwolaeth Yn absen-

oldeb ei weinidog, y Parch. Arthur Thomas, gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. J. Davies, Rheithor Bangor Teify: T. Davies, Horeb; John Davies a L. Williams. Bachgen ieuanc addfwyn a thawel a glan ei fodiad oedd David Tom, a chwith ydyw meddwl, ar ol dod allan o bob perygl rhyfel, iddo syrthio pan ar gael ei ryddhau o'r fyddin. Un o fechgyn ieuainc mwyaf prydferth yr ardal oedd, a bydd yr adgof am dano yn felus i bawb gafodd y fraint o'i adwaen. Cydymdeimlir yn fawr a'i rieni a'i ddwy chwaer yn eu profedigaeth flin. Y mae yn beth cysur iddynt gael gweini arno yn ei gystudd olaf. Erys perarogl hyfryd ei fywyd.

MEHEFIN 23, yn 72 oed, Mr. John Davies, Ffosesgob, Llandyssul. Cafodd yr ymadawedig iechyd da ar hyd ei oes. Yr oedd yn weithiwr caled ac yn amaethwr cyfrifol yn yr ardal. Gadawodd weddw ac wyth o blant ieuainc i alaru am ei golli. Claddwyd ef y dydd Gwener dilynol yn mynwent Carmel, ac yn absenoldeb y Parch. Arthur Thomas yn herwydd afiechyd gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a chynorthwyd gan y Parchn. T. Madoc Jones, y Ficer, a David Jones, cynweinidog Carmel.

GORFFENAF 4, yn ddisymmwth, Rees Jenkins, Inglis Cottage, Allty-blacca, yn 68 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig wedi ei fendithio â chorph cryf ac âg iechyd da drwy ei oes. Prynhawn blaenorol i'w farwolaeth cafodd ei gymeryd yn wael, a bu farw cyn toriad y dydd y boreu uchod. Yn Beilibach, ger Cribyn, y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser, a bu yn amaethwr llwyddianus yno. Naw mlynedd yn ol ymneillduodd o'i alwedigaeth, a symudodd i'r lle uchod i fyw. Gan ei fod o duedd gymdeithasgar gwnaeth ei hun yn fuan yn gartrefol yn ei ardal newydd. Nid dyn yn byw iddo ei hun ydoedd, ond i eraill hefyd; a gwnaeth y dyddordeb a deimlai yn amgylchiadau pobl eraill, a'i barodrwydd i gydymdeimlo âg eraill, a'u cynorthwyo, enyn teimladau cynes a pharchus rhwng ei gymydogion ag yntau. Yr oedd unplygrwydd ac uniondeb yn nodweddion amlwg yn ei fywyd, a sicr yw fod syniad o iawnder mor fyw ynddo fel na wnaeth gam â neb. Yr oedd yn aelod o Eglwys Alltyblacca. Claddwyd y Llun canlynol yng Nghapelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, Tancoed; T. O. Williams, Brondeifi; D. Evans, Cribyn; D. C. Griffiths, Aberduar, a — Phillips, Tynygwndwn. Gadawodd briod, a nith i'w briod, yr hon sydd yn cartrefi yn Inglis Cottage, tri brawd ac un chwaer, ynghyd âg amryw o neiaint mewn galar ar ei ol. Nerth a gaffo'r weddw i ddal dan y brofedigaeth.

GORFF. 7, yn 74 mlwydd oed, Mrs. Anne Pendleton, King's Head, Llandyssul. Yng Nghasnewydd y treuliodd yr ymadawedig y rhan fwyaf o'i hoes, a phan y goddiweddwyd hi gan henaint a llesgedd daeth i gartrefu at ei brawd Mr. Griffith Davies, King's Head, lle y cafodd bob gofal a charedigrwydd gan y teulu. Gwraig ddarbodus a gofalus y bu drwy ei bywyd. Y dydd Llun dilynol claddwyd ei gweddillion marwol yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog y Parch. D. D. Joseph, (A.), Newport a T. Arthur Thomas.

GORFFENAF 9, yn 22 oed, ar ol pedwar mis o gystudd caled, Mary Geinor, anwyl ac unig ferch Mary J. Jones, Gelliaur, Llandyssul, a'i diweddar briod, James Jones. Cydymdeimlir yn fawr â'i mham a'i modrybydd yn eu galar a'u trallod, oblegid yr oedd Geinor yn anwyl iawn ganddynt. Yn naturiol, i'w mham mae'r ergyd drymaf, ac felly â hi y cydymdeimlir fwyaf. Collodd Mrs. Jones ei phriod oddeutu 20 mlynedd yn ol, ar ol tymhor byr o yrfa briodasol. Un eiddil ac egwan o gyfansoddiad oedd Geinor pan yn blentyn—yn gymaint felly nes fod

llawer wedi synu iddi gael byw cyhyd, ond er's rhai blynyddoedd yr oedd wedi ymwroli, ac yr oedd ei chyfeillion o ganlyniad wedi trefnu blynyddoedd lawer o ddyfodol iddi. Ond wele hi wedi mynd yn gynar, a mawr yw'r galar ar ei hol. Yr oedd ganddi lu o gyfeillion a chyfeillesau, a hyny mewn llawer ardal. Yr oedd ei chynhebrwng lluosog a'r nifer fawr o blethdorchau osodwyd ar ei bedd yn dystiolaeth amlwg o hyn. Wrth ei cholli hi, collodd cynulleidfa ac Ysgol Sul y Llwyn un ag oedd wedi ei dwyn i fyny i fod yn ffyddlon er yn blentyn, a chollodd yr ardal un a gyfrifid yn hawddgar a siriol ei hyspryd. Hyderwn y ca'r fam a'i chwiorydd nerth i ddal yn wrol o dan y cwmwl. Claddwyd y Llun canlynol, yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a George Davies, (A.), Gwernogle.

"Cawn gwrddyd yn y nef."

GORFF 13, yn 66 oed, Hannah Jones, Ty'rcapel, Llwynrhydowen gan adael dwy chwaer, wyres fechan a pherthynasau ereill i weld ei heisieu Bu'n byw yn y ty capel ac yn glanhau y capeli am oddeutu 18 mlynedd, a chwareu teg iddi gofalodd am danynt, yn enwedig y capel newydd, yn ffyddlon. Credwn fod glanhau y capel newydd yn hyfrydwch ganddi. Bu'n gwaelu'n raddol am tua dwy flynedd ond daliodd ati i gyflawni ei goruchwylion hyd o fewn i ychydig fisoedd i'r diwedd. Byw ar ei phen ei hun ydoedd er's blynyddoedd, a diflas ydyw ar bob un felly pan ddaw afiechyd. Chafodd hi ddim cam serch hyny. Gweiniwyd arni yn ei chystudd olaf gan ei chwiorydd a chymydogesau caredig. Cafodd angladd parchus y Mawrth canlynol, pryd y claddwyd hi yn mynwent Llwynrhydowen, ac y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

GORFFENAF 4, yn 28 mlwydd oed, David Graig Jones, B A., unig blentyn Mr. a Mrs. Jones, Clydach Vale. Yr oedd y teulu hwn yn byw cyn symud i Forganwg, yng Nghwmgeist, ger Llandyssul, lle y maent yn adnabyddus i gylch helaeth o'r ardalwyr. Athraw mewn ysgol nwchraddol yn Gainsborough oedd ein cyfaill, lle yr aeth o dan *operation*, yr hyn fu'n achos ei farwolaeth. Bu yn llwyddiannus iawn yn ei yrfa addysgol yn yr ysgolion a'r Coleg yng Nghaerdydd, lle y graddiodd gydag anrhydedd. Bu yn ffyddlawn iawn gyda'r achos Undodaidd yng Nghlydach Vale, ac wedi hyny yn Gainsborough. Yr oedd ei addfwynder, ei wyleidddra a'i naturioldeb yn ei wneud yn ffafred gan bawb a'i hadwaenai. Cawsom y fraint o wybod rhywbeth o gyfrinach ei feddyliau a'i amcanion, a da gennym yn awr dystiolaethu ei fod yn un o'r dynion ieuainc hynny welant weledigaethau tecach na dim sydd gennym yn awr. Cydymdeimlir yn fawr a'i dad a'i fam yn eu colled a'u hiraeth mawr am eu hunig blentyn. Yr oedd eu bywyd yn troi o amgylch ei fywyd ef, a phaham na allant eto fyw iddo ef? Daethpwyd a'i gorff i'w roi ym mynwent Eglwys Llanfihangel-ar-Arth. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac yn yr Eglwys a'r fynwent gan y Parch. J. T. Hughes, y ficer.

"Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd."

MANION AC HANESION.

CROESAWU MILWYR.—Nos Wener, Mehefin 6, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn hen gapel Llwynrhydowen, i estyn croesaw adref i Private James Brown, mab James ac Eliza Brown, Llwyneos, Pontshaen. Bu James yn y fyddin am bedair blynedd, a threuliodd y rhan fwyaf o'r amser hwnw yn Salonica. Mae golwg braf arno. Nid yw'r amser caled mae wedi mynd drwyddo wedi symud ymaith y wên siriol arferai fod ar ei wyneb, nac wedi difa llonder ei yspryd. Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd noson lawen. Ar derfyn y cyfarfod estynwyd swm sylweddol o arian iddo fel arwydd o deimladau da yr ardal tuag atto.

Nos Wener, Mehefin 20, cynhaliwyd cyfarfod arall o'r un natur yn yr un lle i groesawu Private James Evans, mab David Evans, Ffynonllewelyn, Llandyssul. Bu dau o frodyr James yn y fyddin, ond maent hwy fel yntau yn rhydd erbyn hyn. Treuliodd ef y rhan fwyaf o'i amser yn Mesopotamia, ond ychydig fisoedd cyn dod adref danfonwyd ef i India. Yr oedd yn dda gan bawb ei weld ar y noson uchod, a dangoswyd hyny yn amlwg cyn terfynu y cyfarfod drwy drosglwyddo swm anrhydeddus o arian iddo yn ddangoseg o barch yr ardal iddo.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Nos Sul, Mai 18, yn y Graig, cafwyd cyfarfod o chwarae, canu ac adrodd, gan yr ieuainc. Siaradwyd i bwrpas gan rai o'r diaconiaid. Cyfeiliodd Mr. H. H. Morgan, a llywyddodd y Parch. D. G. Rees.

AETH deiliaid yr Ysgol Sul i'r mynydd y Llungwyn i fwynhau gwledd o dê a bara brith. I ddwyn y dydd i derfyniad rhowd rhes o chwareuon a rhedegfeydd i'r plant, a buont wrthi nes blino'n lân.

YN y Tabernacl, Pontardawe, nos Iau, Gorff. 10, cynhaliwyd Budd-Gyngherdd i'r bachgen ieuanc, Mr. Howell J. Thomas, Pontardawe, yr hwn, ysywaeth, y sydd yn analluog i ddilyn ei alwedigaeth yn herwydd afiechyd, yr hwn a'i blina er ys tros ddwy flynedd. Gwnaed hyn dan nawdd Cynghor Crefftol, Pontardawe, a llu o gefnogwyr Llafur a Sosialaeth, ynghyd a chynulleidfa y Graig a Gellionen. Cawd rhaglen gyfoethog ac amrywiol mewn llên, a cherdd offerynol a lleisiol. Cadeiriwyd gan Mr. S. S. Lewis, Tymawr, Trebanos, ac arweiniwyd gan y Parch. Seiriol Williams, gweinidog y lle. Cyfeiliwyd gan Dr. Aneurin Rees, Garnant.

CYRFF EIN MILWYR. - Mae miloedd o honynt yn gorwedd yn wasgaredig ar hyd maesydd Ffrainc, ac mae'r gofyniad wedi codi beth i wneud a hwy? Tybia rhai y dylid eu gadael lle y maent; ond y mae yna anhawsderau anorfod i hynny. Ac yr ydys wedi penderfynu cael mynwentydd priodol iddynt, ac i osod carreg goffa uwch ben pob bedd, oll yn unffurf fel na byddo gwahaniaeth rhwng cyfoethog a thlawd. Yr ydys hefyd, i raddau, wedi penderfynu pa fath ysgrifen: "yr oed, a'r enw a'r dydd bu farw," wrth gwrs. Ond yr ydys am ragor, ac mae llawer o ysgrifenu wedi bod yn nghylch y Rhagor. Eisiau *motto* oedd, ac yr ydys wedi derbyn awgrym Mr. Rudyard Kipling, allan o'r Apocrypha, allan o'r bennod sy'n dechreu—"Canmolwn yn awr y gwŷr enwog." Gweler 2 Esdras 44. Ceir y geiriau a ddewisir yn adnod 14: "Y mae eu henw yn byw byth."

CRED BENJAMIN FRANKLIN.—[Yr oedd Dr. Franklin yn un o ddynion mwyaf America. Arferai addoli yn y capel Undodaidd yn Essex St., Llundain, tra fu'n byw yn y wlad hon. Yr oedd yn gyfeillgar a phrif Undodiaid ei oes—Joseph Priestley, Theophilus Lindsey, a Dr. R. Price. Wele'n canlyn ei gred yn ei eiriau ei hun—wedi eu cyfieithu:] "Credaf

mewn un Duw, Creawdwr y Bydysawd ; ei fod yn ei lywodraethu trwy ei ragluniaeth ; mai'r gwasanaeth mwyaf derbyniol allwn ni roddi iddo yw gwneud daioni i'w blant eraill ; fod enaid dyn yn anfarwol, ac yr ymddygir yn gyfiawn tuag ato mewn bywyd arall yn unol a'i ymddygiad yn y bywyd hwn. Ystyriaf mai y rhai hyn yw prif bwyntiau pob gwir grefydd. Yn mherthynas i Iesu o Nazareth, credaf mai ei *system* a'i grefydd ef, fel y gadawodd efe hwynt i ni, yw y gore welodd y byd erioed, a'r gore a wel byth ; ond ofnaf fod llawer o gyfnewidiadau llygredig wedi eu derbyn iddynt ; ac y mae gennyf beth amheuon yn nghylch ei dduwdod.

HOWEL HARRIS.—Mae Lady Huntingdon wrth ddesgrifio angladd Howel Harris, Gorphenaf 1773, fod ar y dydd cofiadwy hwnnw tuag ugain mil o bobl o bob parth o'r Sir yn bresennol. Yr oedd yno dri llwyfan, ac oddi ar y rhai hynny traddodwyd naw pregeth. Gweinyddwyd y Cymundeb Sanctaidd gan bymtheg offeiriaid i'r dyrfa fawr. Yr oedd y wylo gymaint fel mae gydag anhawsdra mawr yr aethpwyd trwy y gwasanaeth claddu.

Cymdeithas ✦ Undodaidd ✦ Deheudir ✦ Cymru.

Llywydd = = Mr. David Davies, Gellionen.

CYNHELIR

Cyfarfodydd ✦ Blynyddol

- - YR UCHOD YN - -

✦ LLWYNRHYDOWEN ✦

DYDDIAU MERCHER ac IAU, AWST 6fed a'r 7fed, 1919.

Nos Fercher am 6.30—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
Dydd Iau am 9.30—Pwyllgor y Gymdeithas.
" " 10.30—Gwasanaeth a Phregeth.
" " 2 —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
" " 6 —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Estyna cynulleidfa Llwynrhydowen groesaw cynhes i bawb. Bydded i'r ymwelwyr hynny fyddant am lety a cherbyd i'w cyfarfod yn Llandyssul, nawn Mercher, ohebu'n brydlon â'r

Parch. E. O. JENKINS,
Llwynmarles, Llandyssul.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11
	£363,516,657	8	10

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England	63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*	2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice	65,809,169	12	4
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	1,410,465	18	10
Sundry Investment	1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange	39,249,296	3	2
	232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..	99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans	14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares :—			
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,237,500 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 477,810 0 0			
	759,690	0	0
	£363,516,657	8	10